

**TO DDO
DYFODOL**

MANIFFESTO IAITH

**Y pum mlynedd nesaf:
yr wyth cam allweddol**

www.dyfodol.net



Newid cyfeiriad



Mae maniffesto Dyfodol i'r laith, *Creu Dyfodol i'r Gymraeg*, yn cynnig rhaglen weithredu gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r laith Gymraeg ym mhob agwedd ar ein bywyd cymdeithasol a chenedlaethol. Rydyn ni am weld **newid cyfeiriad** o fynnu statws a hawliau i gynyddu niferoedd siaradwyr ac i ddefnyddio'r iaith.

Ein barn ni yw y bydd gweithredu'n egniol ac effeithiol yn y meysydd hyn yn trawsnewid rhagolygon yr iaith. Mae angen rhaglen hyrwyddo eang fel bod pobl Cymru'n deall **pwysigrwydd y Gymraeg a manteision dwyieithrwydd**. Dyma'r blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

- 1** Cynyddu nifer y siaradwyr drwy dwf **Addysg Gymraeg**. Y nod yw cael 50% o blant 7 oed mewn addysg Gymraeg erbyn 2030.
- 2** **Cymraeg i Oedolion** i ganolbwyntio ar
 - **ddatblygu'r gweithlu** ar gyfer addysg a gwasanaethau Cymraeg
 - cefnogi rhieni sydd am greu **cartrefi Cymraeg**
- 3** Sefydlu rhwydwaith o **Ganolfannau Cymraeg** ledled Cymru. Bydd y Canolfannau hyn yn cydweithio gyda'r Mentrau Iaith, Cymraeg i Oedolion ac eraill i sbarduno a chydgyssylltu gweithgareddau Cymraeg.
- 4** Hyrwyddo **gwasanaeth Cymraeg llafar, wyneb-yn-wyneb**, i gwsmeriaid yn y sectorau cyhoeddus

a phreifat, yn enwedig siopau a manau cymdeithasu. Dylai Comisiynydd y Gymraeg gael cyfarwyddyd i flaenori hyn.

5 Datblygu **gweithleoedd Cymraeg**

- mewn gweinyddiaeth a gwasanaethau cyhoeddus
- ym myd busnes

6 Penodi **Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig** lle byddai'r Gymraeg yn ystyriaeth hanfodol mewn polisi cynllunio a chartrefu

7 Sicrhau dyfodol llewyrchus i S4C a'r **cyfryngau torfol a chymdeithasol** Cymraeg, gan gynnwys darparu dwy sianel radio.

8 Sicrhau bod yna weithredu effeithiol i gyrraedd yr amcanion hyn drwy sefydlu **Gweinyddiaeth i'r Gymraeg**, gydag arbenigedd digonol, o fewn Llywodraeth Cymru, er mwyn

- llunio **strategaeth gynhwysfawr a chyson**
- rhoi gweithredu'r strategaeth yng ngofal **Asiantaeth Iaith** hyd-braich â'r rhyddid i arloesi a sbarduno.

Rydyn ni am i'r rhaglen efelychu'r arfer gorau yn Ewrop a'r Byd. Yng Ngwlad y Basgiaid, e.e. cafwyd cynnydd o 529,000 i 714,000 o siaradwyr dros ugain mlynedd. Does dim rheswm pam na allwn ni weld cynnydd tebyg.

Dros y misoedd nesaf bydd Dyfodol i'r Iaith yn pwyso ar y pleidiau gwleidyddol i ymrwymo i'r blaenoriaethau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016-2021.

WEDI'I GYFLAWNI'N BAROD

Tair blynedd sydd ers cychwyn Dyfodol i'r laith, y mudiad lobïo sydd am weld pob plaid mewn llywodraeth ganol a lleol yn rhoi'r iaith yn ganolog i'w polisiau. Mae llawer wedi digwydd yn barod:

CYNLLUNIO A'R GYMRAEG

Trwy ymdrechion Dyfodol i'r laith sicrhawyd bod y Gymraeg yn cael ei chydabod yn y Bil Cynllunio.

SIR GÂR

Derbyniodd Sir Gâr holl argymhellion Dyfodol i'r laith wrth lunio eu polisi iaith newydd.

CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION

Gofynnodd Dyfodol i'r laith am gael Canolfan Genedlaethol i lywio maes pwysig Cymraeg i Oedolion. Mae hyn yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

CANOLFANNAU CYMRAEG

Mae Dyfodol yr laith wedi cyflwyno'r achos dros sefydlu Canolfannau Cymraeg ledled Cymru. Mae'r Llywodraeth yn ddiweddar wedi cyfrannu tuag at sefydlu Canolfannau ym Mhontardawe, Llanelli, Caerdydd, Caerfyrddin, Bangor a manau eraill.

LOBÏO

Mae Dyfodol i'r laith wedi cwrdd yn gyson â'r Prif Weinidog, ACau, gweision sifil, ac wedi cyflwyno sylwadau i lu o ymgynghoriadau sirol a chenedlaethol

Y DYFODOL

Mae nifer mawr o achosion yn cael ein sylw ar hyn o bryd, gan gynnwys sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle teilwng ymysg gweithlu'r Cynghorau Lleol newydd, pan ddôn nhw.

Sut galla i helpu?

1. Cysylltu â'ch Aelod Cynulliad

Gorau po fwyaf ohonom fydd yn mynd ati i gysylltu â'n Haelodau Cynulliad i bwysio arnyh nhw i sicrhau bod eu pleidiau'n derbyn y pwyntiau a nodwn dros y ddalen.

2. Cymorth ariannol

Ein nod yw cael swyddogion amser llawn i wneud y gwaith lobïo'n effeithiol a pharhaus. Trwy gynyddu incwm gallwn ni wneud hyn. Hyn fydd yn rhoi modd i ni weithredu'n fwy effeithiol eto. Bydd yn wych os gallwch lenwi'r ffurflen gyferbyn os nad ydych eisoes yn cyfrannu.

Croesawn pob cyfraniad a bydd tâl misol o £10 neu fwy yn dâl aelodaeth gan roi hawl i ddylanwadu a phleidleisio ar bolisiau'r mudiad. Mae ffurflen Archeb Banc gyferbyn.